

Y Delyneg – Glaw.

Daeth chwe ymgais i law. Mae'n deg dweud na chyrhaeddodd neb yr uchelfannau eleni. Does dim llawer sy'n newydd yn y cerddi hyn, a chefais siom nad oes neb wir wedi cynnig syniad neu ddelwedd neu ymadrodd gwreiddiol a thrawiadol.

Rhaid dweud fod pawb yn eithaf cyfartal, ac felly nid oes ymgais i'w gosod mewn trefn teilyngdod.

Glan Wyre: Y mae'r glaw yn y gerdd hon yn gwneud i'r bardd feddwl am yr hen fforddolion ffyddlon a gweithgar. Does dim sy'n newydd yma, ond prif wendid y gerdd o fewn y gystadleuaeth hon, o bosib, yw mai cerdd am y fforddolion yw hi, nid cerdd am law.

Elsi: Mae yna ymdrech at ddweud stori yma. Yn y pennill cyntaf, fe gyfeiria'r bardd at storm wirioneddol. Yn yr ail bennill cyfeirir at ferch y mae ei bywyd yn un storm sy'n profi'n ormod iddi, nes iddi ei thafu ei hun i'r tonnau gwyllt. Yn anffodus, teimlaf fod cwpledi clo'r ddau bennill braidd yn gloff.

Sioned: Telyneg nad yw hi'n symud yn ei blaen yn syniadol, ac ni theimlwn fod cyflwyno'r naill ddarlun ar ôl y llall yn cynnig unrhyw ddatblygiad creadigol.

Dan-y-Ffynnon: Telyneg yn y wers rydd. Mae hynny'n anodd ac yn gofyn, yn fwy na dim, am gynildeb eithriadol. Y mae'n rhaid dod o hyd i'r union air, ac mae'n rhaid osgoi pentyrru geiriau. Ni lwyddodd Dan-yFfynnon i wneud hynny, yn anffodus. Darlun o bry copyn wrthi'n creu ei we y tu allan i'r tŷ sydd yma. Nid mewn telyneg mae gofyn cwestiynau fel hyn:

A fuost ti
wrth draed rhyw Gamaliel o gopyn
yn dysgu dy dôn,
neu ai cynhenid y cwblwl
tu fa's i'r tŷ,
y wyrth hon o we?

Mynydd Newydd: Telyneg arall yn trafod gwe pry' copyn, ond ar fydr ac odl y tro hwn. Mae'n trafod cryfder y we yn ogystal â'i harddwch. Ond gwendid pennaf y gerdd yw fod rhywbeth braidd yn amhersain yn y mydr.

Gobaith: Hon sydd wedi fy mhlesio fwyaf. Does dim ysgytwol o newydd, ac yn wir, gellid dweud fod y syniad o'r artist a'i balet yn dreuliedig iawn. Ond y bardd hwn sydd wedi llwyddo i ddweud ei ddweud yn fwyaf llwyddiannus a glân.

Dafydd J Pritchard